

## Gwaith cynnal a chadw ac uwchraddio Harbwr/Hafan yn ystod gaeaf 2016/17

### Harbwr

1. **Cwch Patrol Gwynedd** - Codi cwch rheolaeth yr Harbwr allan o'r dŵr. Bydd angen adnabod cwch newydd yn ystod y 12 mis nesaf gan ragweliir bydd costau cynnal a chadw'r cwch yn cynyddu o ganlyniad defnydd ac oed y cwch. Fe fydd y Gwasanaeth yn addasu cwch 'Y Syrfëwr' sydd wedi bod yn segur ers peth amser.
2. **Carthu** - mae gwaith Lefelu Gwely'r Môr (Bed Levelling) wedi bod yn llwyddiannus ac yn ffordd gost effeithiol o garthu sianel yr Harbwr. Fe fydd yn fwriad cynnal gwaith pellach yn y sianel cyn Gŵyl Y Pasg 2017. Fe fydd ceg yr Harbwr yn cael ei garthu yn unol â'r strategaeth garthu.

### Gwaith cynnal a chadw cyffredinol

1. Cynnal a chadw pontŵn pysgotwyr.
2. Cynnal arolwg o gyflwr cyffredinol y pontŵn gan adnewyddu wyneb y pontŵn fel bod angen.
3. Adolygu a phaentio stanciau mordwyo.
4. Tynnu allan, glanhau, a phaentio'r Bwi Tramwyo.
5. Paentio a thacluso waliau'r toiledau a chawod yn adeilad allanol yr Harbwr.
6. Gosod mesur dyfnder dwr newydd yn geg yr Harbwr.-

### Hafan

1. **CCTV** - Mae camera newydd TGC wedi cael ei osod. Ystyried y posibilrwydd creu linc o'r sistem TGC newydd yn y swyddfa harbwr i'r sistem monitro yn yr Hafan. Ystyried uwchraddio'r camerâu TGC eraill yr Hafan.
2. **Safle We** - mae'r safle we wedi ei uwchraddio. Rhagweliir bydd y safle we newydd yn fwy addas i cyfriadorion 'tablet' a ffonau symudol. Yn ogystal â chynnwys botwm i'r tywydd neu lefydd bwyta ac yn y blaen. Mae hefyd 'Cyfrifiannell' newydd sydd yn cyflwyno pris angorfa i'r cwch ar y sistem newydd.

### Gwaith cynnal a chadw cyffredionol

1. Paentio pont mynediad pontŵn yr Hafan
2. Cynnal a chadw holl bontŵn yr Hafan (rhagweliir cyfnod gwaith 6 wythnos.)
3. Cynnal arolwg o'r gwaith coed y pontŵn a newid a thrwsio fel bod angen. Cynnal arolwg o fframwaith y pontŵn.
4. Cynnal a chadw tiroedd gwyrdd oddi amgylch yr Hafan.
5. Cynnal a chadw compownd gwaredu Gwastraff.
6. Cynnal a chadw rhwystrau Diogelwch.
7. Gwasanaethu'r 'Hoist'.
8. Adnabod arwyddion cyflymder uchaf '20 M.Y.A.' ar Ffordd Penrhyn Glandon (nid y Briffordd.)
9. Gosod lampau golau newydd ar bont mynediad i'r pontŵn
10. Cynnal a chadw ysgolion diogelwch y pontŵn a Chei'r Gogledd.
11. Glanhau a chynnal a chadw'r llithrfa.
12. Archwilio, glanhau a chynnal a chadw holl stanciau pontŵn yr Hafan.